**DIFFINIO YSGOLION YN ÔL Y DDARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG:**
**Y CATEGORÏAU AR GYFER YSGOLION UWCHRADD**

## POLISI IAITH CYNGOR SIR GWYNEDD

Datblygwyd polisi Iaith Cyngor Sir Gwynedd ym 1996.

Mae'n datgan mai'r un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus yn y ddwy iaith erbyn diwedd Cyfnod Allweddol (CA) 2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd Y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, y nod yw parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

Mae gofyn i ysgolion uwchradd adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd yn gweithio i gyfeiriad y cydbwysedd ieithyddol a argymhellir yn y Polisi Iaith, rhai'n fwy agos na'i gilydd.

## DIFFINIADAU LLYWODRAETH CYMRU (HYDREF 2007)

Mae *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* (Hydref 2007), dogfen a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, yn amlinellu disgrifiadau a chategorïau ysgolion yn ôl faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio wrth addysgu a dysgu, ac yn yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y categorïau er mwyn casglu gwybodaeth ynglŷn â darpariaeth genedlaethol a hefyd yn lleol gan awdurdodau addysg ac ysgolion er mwyn rhoi gwybodaeth i rieni am ba fath o ysgolion sydd ar gael mewn cymdogaethau gwahanol. Mae'r ddogfen yn datgan y dylai'r wybodaeth helpu llywodraeth leol a chenedlaethol i asesu a yw'r ddarpariaeth yn cwrdd â'r galw lleol. Mae dogfen y Llywodraeth yn datgan fel a ganlyn: '*Er nad oes unrhyw sail gyfreithiol i'r diffiniadau, eu diben yw rhoi gwell gwybodaeth i rieni ac i lywodraeth leol a chenedlaethol ynghylch i ba raddau mae disgyblion yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.'* Byddai angen rheoliadau er mwyn gwneud hyn yn orfodol.

Mae'r categorïau canlynol yn y sector uwchradd:

- Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg
- Ysgol Uwchradd Ddwyieithog (a'r categori wedi'i rannu'n 4 is-adran).
- Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg
- Ysgol Uwchradd Cyfrwng Saesneg yn bennaf

Nid yw'r sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol yn y modd a amlinellir uchod. Eto i gyd, mae *Fy Ysgol Leol*, sef gwefan boblogaidd iawn a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, i'w gwneud yn haws i rieni ac i bawb arall sydd â diddordeb gael gweld data am ysgolion, yn cynnwys adran ar Gategoreiddio Ysgolion yng Ngwynedd. Mae'n seiliedig ar y ddogfen *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* (Hydref 2007).

Mae *Fy Ysgol Leol* yn cynnwys y wybodaeth ganlynol am gategorïau ysgolion uwchradd y sir, ac fel y gwelir, dau gategori sy'n berthnasol i Ysgolion Uwchradd Gwynedd sef:

**Ysgol Uwchradd Ddwyieithog**

- **Categori 2A -** Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.
- **Iaith yr Ysgol -** Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

**Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg**

- **Y cwricwlwm -** Addysgir yn y naill iaith a'r llall, ac addysgir 20 - 49% o'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rheol, byddai pob pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.
- **Iaith yr Ysgol -** Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn y naill iaith a'r llall, neu yn Saesneg.

| YSGOL | DIFFINIO CATEGORI IAITH |
|---|---|
| **Ysgol Ardudwy** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Botwnnog** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Brynrefail** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Dyffryn Nantlle** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Dyffryn Ogwen** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Eifionydd** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Friars** | **Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg** |
| | |
| **Ysgol Glan-y-môr** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Syr Hugh Owen** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Tryfan** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Tywyn** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Y Berwyn** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Y Gader** | **Dwyieithog (Categori A)** |
| | |
| **Ysgol Y Moelwyn** | **Dwyieithog (Categori A)** |